SUT YDYCH CHI'N TEIMLO AM FATHEMATEG?

BARCLAYS | LifeSkills

National Numeracy
NUMBER CONFIDENCE WEEK

Yn y gweithgaredd hwn, byddwn yn astudio sut mae oedolion a phobl ifanc yn teimlo am fathemateg.

Mae gan bawb ei deimladau ei hun am fathemateg. Efallai eich bod yn ei mwynhau, yn ei chael yn anodd, yn teimlo'n ansicr amdani, neu'n profi cyfuniad o'r rhain i gyd.

Rydym wedi canfod mai dyma'r geiriau mwyaf cyffredin y mae pobl yn eu defnyddio am fathemateg:

Cyfforddus **Panig** **Cariad** **Hapus** **Digalon** **Llawn diddordeb** **Pryderus**
Llawn cyffro **Twp** **Wedi diflasu** **Nerfus** **Iawn** **Hyderus** **Gorbryderus** **Da**

Meddyliwch amdani

Cymerwch eiliad i ystyried sut mae mathemateg yn gwneud i chi deimlo. Pa air fyddech chi'n ei ddewis?

Ystyriwch pam rydych chi'n teimlo fel hyn.

Holwch eraill

Siaradwch â'ch cyd-ddisgyblion am eu teimladau nhw am fathemateg. Pa eiriau fydden nhw'n eu dewis?

Pam maen nhw'n teimlo felly?

Efallai y bydd rhai pobl yn teimlo'n wahanol i chi. Gwrandewch a pharchwch eu teimladau a'u profiadau.

Gallwch hefyd wylio'r fideo hwn i glywed beth sydd gan bobl eraill i'w ddweud.

Beth oeddech chi wedi'i ddysgu?

- Ysgrifennwch y geiriau a ddewisodd pobl.
- A oes unrhyw eiriau neu deimladau sy'n ymddangos fwy nag unwaith? A wnaeth unrhyw beth eich synnu?

Mae llawer o bobl yn teimlo'n dda am fathemateg, ond dydy llawer ddim, ac mae yna lawer o resymau pam mae pobl yn teimlo fel hyn.

Beth bynnag yw'r rheswm, nid yw teimlo'n bryderus am fathemateg yn golygu na allwch wella arni. Trwy roi cynnig arni a dal ati, gall eich teimladau ddechrau newid.

Yn y gweithgareddau eraill, rydyn ni'n edrych ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud am fathemateg, ble rydyn ni'n ei defnyddio mewn bywyd pob dydd, a sut i ddechrau teimlo'n well amdani.

Sylwadau myfyrwyr:

